



Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy & Denbighshire Care & Repair

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych Hysbysiad Preifatrwydd

1. Sut rydym ni'n defnyddio eich data personol

Rydym ni wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol chi.

Yr unig ddata rydym ni'n ei gasglu gennych chi yw'r hyn a gyflwynir gennych chi ar y ffurflen hon, a ffurflenni eraill y byddwn ni'n gofyn i chi eu llenwi yn ystod cyfnod ein perthynas gyda chi.

Bydd unrhyw ddata personol sensitif a gasglwn gennych chi at ddibenion darparu ein gwasanaethau i chi neu os oes angen i ni gydymffurfio gydag ymrwymiad cyfreithiol. Ein sail cyfreithiol ar gyfer prosesu'r data yw eich caniatâd penodol chi.

Byddwn yn defnyddio eich data personol ansensitif i (i) eich cofrestru chi fel cleient newydd, (ii) rheoli taliadau, (iii) casglu ac adfer arian sy'n ddyledus i ni, (iv) rheoli ein **perthynas** gyda chi, (v) anfon manylion am ein nwyddau a'n gwasanaethau atoch chi.

Mae ein seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yng nghyswllt pwyntiau (i) i (iv) uchod ar gyfer cyflawni cytundeb gyda chi ac yng nghyswllt (iii) a (v) uchod, yn angenrheidiol ar gyfer ein budd cyfreithlon i ddatblygu ein cynhyrchion/gwasanaethau a thyfu ein busnes ac i adfer arian sy'n ddyledus.

Ni fyddwn yn rhannu eich manylion gyda thrydydd partïon at ddibenion marchnata, ac eithrio gyda'ch caniatâd penodol chi.

2. Datgelu eich data personol

Gallai fod yn ofynnol i ni rannu eich data personol gyda (i) darparwyr gwasanaethau sy'n darparu cymorth Technoleg Gwybodaeth a systemau gweinyddol, (ii) cynghorwyr proffesiynol yn cynnwys cyfreithwyr, bancwyr, archwilwyr ac yswirwyr, (iii) Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac awdurdodau rheoleiddio eraill, (iv) trydydd partïon rydym ni'n gwerthu, trosglwyddo neu'n uno rhannau o'n busnes neu'n hasedau gyda nhw a/neu (v) i swyddogion proffesiynol eraill at ddibenion trafod eich triniaeth, gyda fy hyfforddwr goruchwyllo fel rhan o fy hyfforddiant neu Grwp Cynefin y Rhiant Gwmni.

Dan amgylchiadau penodol cewch ofyn i ni ddileu eich data. Edrychwch ar yr adran gyda'r teitl 'Eich hawliau' isod am ragor o wybodaeth. Mae'n ofynnol i'r trydydd partïon rydym ni'n trosglwyddo eich data iddynt barchu diogeledd eich data personol a'i drin yn unol â'r gyfraith. Caniateir iddynt brosesu eich data personol ar ein cyfarwyddyd ni yn unig.

3. Diogeledd data

Rydym ni wedi cyflwyno mesurau diogeledd i atal eich data personol rhag cael ei gollu'n ddamweiniol, ei ddefnyddio neu ei weld mewn modd diawdurdod, ei addasu neu ei ddatgelu. Rydym ni'n cyfyngu mynediad at eich data personol i'r cyflogeion, asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill ag angen busnes i gael data o'r fath. Byddant yn prosesu eich data personol yn unol â'n cyfarwyddiadau ni yn unig ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd. Rydym ni wedi cyflwyno gweithdrefnau i ymdrin ag unrhyw dorri'r rheoli data personol a amheuir, a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle bo'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Dan amgylchiadau penodol cewch ofyn i ni ddileu eich data. Edrychwch ar yr adran gyda'r teitl 'Eich hawliau' isod am ragor o wybodaeth. Gallem wneud eich data personol yn ddiennw (fel nad oes modd eich adnabod chi o ddata o'r fath mwyach) at ddibenion ymchwil neu ystadegol, ac yn yr achos hynny gallem ddefnyddio'r wybodaeth hon am gyfnod amhenodol heb eich hysbysu ymhellach.

4. Cadw data

Byddwn yn cadw eich data personol gyhyd ag y bo'n angenrheidiol **yn unol â'n Polisi Cadw Data** i gyflawni'r dibenion y casglwyd y data ar ei gyfer. Gallem gadw eich data i fodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd felly, er enghraifft, mae'n rhaid i ni gadw gwybodaeth benodol amdanoch chi am chwe mlynedd ar ôl i chi orffen bod yn gleient at ddibenion treth. Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni ddileu'r data personol sydd gennym ni amdanoch chi mewn amgylchiadau penodol. Edrychwch ar adran 6 isod.

5. Eich hawliau

Rydych chi'n medru gweithredu hawliau penodol yng nghyswllt eich data personol rydym ni'n ei brosesu. Nodir y rhain yn fanylach yn

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/>

Yng nghyswllt cais Gwrthrych am Wybodaeth, cewch wneud cais ein bod ni'n eich hysbysu chi am y data rydym ni'n ei ddal amdanoch chi a sut rydym ni'n ei brosesu.

Nid ydym fel rheol yn codi tâl am Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth. Fodd bynnag, os gwnaed cais am gopi caled yna rydym yn cadw'r hawl i godi tâl am y gost o anfon yr ymateb drwy ddsbarthiad a gofnodwyd y Post Brenhinol. Os nad yw'r sawl sy'n gwneud y cais am dalu'r gost hwn, gallant ddewis derbyn eu hymateb yn electronig yn ddi-dâl neu gasglu'r copi caled o un o'n swyddfeydd sydd agosaf atynt.

Pan fo ceisiadau am ddata yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, yn arbennig oherwydd eu natur ailadroddus, fel y rheolwr efallai y byddwn naill ai yn:

- (a) codi ffi rhesymol gan ystyried y costau gweinyddu o ddarparu'r wybodaeth neu'r cyfathrebiad neu gymryd y camau y gofynnir amdanynt; neu
- (b) gwrthod gweithredu gofynion y cais

Yn y naill achos neu'r llall, byddwn yn darparu tystiolaeth i'r unigolyn o sut y daethpwyd i'r penderfyniad hwn.

Byddwn yn ymateb i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth cyn pen mis o ddyddiad y cais. Gellir ymestyn hyn am ddeufis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os oes nifer fawr o geisiadau. Yn yr achos hynny, byddwn yn cysylltu â'r unigolyn o fewn mis ar ôl derbyn y cais ac yn egluro pam fod estyniad yn angenrheidiol.

6. Cais gwrthrych am wybodaeth

Os ydych chi'n dymuno cyflwyno **Cais Gwrthrych am Wybodaeth**, anfonwch y cais **drwy'r post at** Uned 10 ac 11 Ffordd Richard Davies, Llanelwy LL17 0LJ neu anfonwch neges e-bost at post@gofalathrwsio.com wedi'i nodi at sylw'r Swyddog Diogelu Data.

7. Cadw eich data yn gyfredol

Mae gennym ni ddyletswydd i gadw eich data personol yn gyfredol ac yn gywir, felly o dro i dro byddwn yn cysylltu gyda chi i ofyn i chi gadarnhau bod eich data personol yn parhau'n gyfredol ac yn gywir.

Os oes unrhyw newidiadau i'ch data personol (fel newid cyfeiriad), gadewch i ni wybod gynted ag y bo modd os gwelwch yn dda trwy ysgrifennu atom neu anfon neges e-bost i'r cyfeiriadau a nodir yn adran 6 uchod.

8. Cwynion

Rydym ni wedi ymrwmo i ddiogelu eich data personol ond, os nad ydych chi'n hapus gydag unrhyw agwedd o sut rydym ni'n casglu ac yn defnyddio eich data am unrhyw reswm, mae gennych chi'r hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr awdurdod goruchwylio materion diogelu data yn y Deyrnas Unedig (www.ico.org.uk).

Byddem yn gwerthfawrogi petaech chi'n cysylltu gyda ni gyntaf os oes gennych chi gwyn fel y medrwn ni geisio datrys eich cwyn.

Manylion cyswllt:-

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, Unedau 10-11 Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, LL17 0LJ

Rhif ffôn: 0300 111 2120

post@gofalathrwsio.com